Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**
**Cwm Clydach**
**Tonypandy**
**CF40 2XX**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf

Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn 2010. Fodd bynnag, dros y 12 mis diwethaf, mae wedi bod trwy newidiadau arwyddocaol. Mae'r partner arweiniol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT, yn gweithio ochr yn ochr ag Addysg Oedolion Cymru (AOC) i gyflwyno'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn y sir. Mae gan y bartneriaeth gysylltiadau cryf â Menter Iaith Rhondda Cynon Taf sy'n cyflwyno ystod o raglenni dysgu oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darpariaeth Multiply hefyd yn rhan o gynnig y bartneriaeth.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y rhaglenni canlynol: medrau hanfodol, Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), medrau digidol, cyflogadwyedd, medrau byw yn annibynnol (MBA), iaith arwyddion Prydain (BSL), cyrsiau rhifedd trwy Multiply, cyrsiau lles, a rhaglenni rhagflas ymgysylltu. Ariennir y ddarpariaeth yn bennaf trwy ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gydag ychydig o gyrsiau a ariennir yn breifat.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth breswyl Rhondda Cynon Taf yw 237,700 (Cyfrifiad 2021). Yn 2021, roedd Rhondda Cynon Taf yn y trydydd safle ar gyfer cyfanswm y boblogaeth o 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnal yr un safle oedd ganddo ddegawd yn ôl. Bu cynnydd o 16.3% mewn pobl sy'n 65 oed ac yn hŷn, gostyngiad o 1.9% mewn pobl rhwng 15 a 64 oed, a gostyngiad o 1.1% mewn plant o dan 15 oed.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn dangos bod y bartneriaeth, sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang, yn gwasanaethu amrywiaeth o ddysgwyr, yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn dwy ardal sy'n disgyn o fewn y 15 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Ystadegau Cymru yn dangos bod 86.68% o bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed yng Nghymru yn meddu ar gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r ffigur hwn yn 82.4%. Canran y trigolion nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau o gwbl yw 9.1%.

Ar draws y sir, nid yw 3.7% o'r trigolion wedi cael eu geni yn y DU, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn gynnydd o 0.6% pwynt canran er 2011. Mae data Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 yn nodi bod 98.5% o'r trigolion yn siarad Saesneg neu Gymraeg. Cyfartaledd canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ledled Cymru yw 29.2%. O fewn Rhondda Cynon Taf, mae cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn is na chyfartaledd Cymru, sef 18.8%. (Ystadegau Cymru, 2022).

Yn 2022-2023, roedd 3,180 o gofrestriadau ar draws y bartneriaeth. O'r cofrestriadau hyn, roedd 2,177 yn ddysgwyr unigryw. Adeg ein hymweliad, roedd 7 dysgwr yn mynychu pob sesiwn, ar gyfartaledd.

## Crynodeb

Ad-drefnwyd partneriaeth dysgu oedolion Rhondda Cynon Taf yn 2023, gan adfywio ei darpariaeth ar ôl COVID. Mae'r cynllun strategol newydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, gan bwysleisio cyflogadwyedd, dysgu gydol oes, a lles, gyda thargedau uchelgeisiol i wella medrau trigolion i fod yr un fath â chyfartaleddau cenedlaethol. Er ei bod yn cynnig darpariaeth amrywiol, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd, digidol, rhaglenni cyfrwng Cymraeg, a chlybiau a dosbarthiadau gwerthfawr sy'n ariannu eu hunain, nid oes gan y bartneriaeth strategaeth glir ar gyfer cynnydd dysgwyr.

Mae integreiddio tîm Gwaith a Sgiliau'r Cyngor yn y bartneriaeth yn helpu mynd i'r afael â gofynion cyflogadwyedd y gymuned leol. Yn ychwanegol, mae cysylltiadau effeithiol y bartneriaeth â thîm Multiply yn dangos ymagwedd arloesol ac effeithlon at integreiddio darpariaeth a rhannu adnoddau. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi meithrin perthnasoedd cadarn â nifer o ysgolion cynradd, gan greu man cynhwysol ar gyfer dysgwyr cymunedol y tu hwnt i ddim ond rhieni sydd â phlant oedran ysgol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu cynnig cyfrwng Cymraeg cadarn trwy gydweithio â Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Mae'r fenter hon yn cynnwys rhaglenni rhifedd Cymraeg ar gyfer rhieni plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, rhaglenni lles fel ioga i rieni a babanod, a 'sesiynau galw i mewn digidol'. Cyflwynir ychydig o'r rhaglenni hyn ar-lein, gan alluogi dysgwyr i fynychu o bell.

Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn defnyddio dulliau amrywiol i hysbysebu eu cyrsiau, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, cynnig sesiynau rhagflas, a dosbarthu pamffledi a thaflenni i leoliadau lle cyflwynir rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Mae gan bob sefydliad ei sianelau cyfryngau cymdeithasol a'i wefan ei hun, sy'n rhoi manylion ynghylch gwybodaeth am gyrsiau, ond nid yw'r platfformau hyn yn gydgysylltiedig sy'n golygu nad oes hyb canolog i allu cael gwybodaeth am raglenni neu lwybrau dilyniant newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod i wybod am gyrsiau trwy argymhellion.

Mae addysgu ar draws y bartneriaeth yn effeithiol, gyda thiwtoriaid yn dangos dealltwriaeth gref o heriau a rhwystrau eu dysgwyr. Maent yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau difyr, sy'n golygu bod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd nodedig. Mae tiwtoriaid yn meithrin cymunedau dysgu ymddiriedus, yn hwyluso trafodaethau sy'n cynnwys pob un o'r dysgwyr, ac yn creu mannau diogel ar gyfer sgyrsiau diffuant ac adeiladol, hyd yn oed ar gyrsiau byr. Mae tiwtoriaid yn rheoli cyflymdra'r dysgu'n fedrus, gan addasu eu ffordd o gyflwyno i ddiwallu anghenion a nodau amrywiol eu dysgwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos cynnydd cadarn mewn arbenigeddau pwnc, ac mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd ati i ymgysylltu â sesiynau, gan ddangos hyder wrth ryngweithio â chyfoedion, tiwtoriaid a staff cymorth. Yn ychwanegol, mae dysgwyr yn datblygu ac yn cynnal eu medrau Cymraeg yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cydnabod effaith gadarnhaol eu cyrsiau o ran eu lles. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso'u medrau newydd y tu hwnt i'r ystafell

ddosbarth, gan gyfrannu at dwf personol ac ymglymiad cymunedol. Mae caffael medrau newydd nid yn unig yn ymestyn galluoedd dysgwyr, ond hefyd yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad a balchder.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cynrychiolaeth a chyfranogiad ystyrlon gan yr holl bartneriaid allweddol ar lefel strategol a gweithredol

A2 Sicrhau bod dysgwyr posibl a dysgwyr presennol yn gallu cael trosolwg o holl gyrsiau a llwybrau dilyniant y bartneriaeth yn hawdd

A3 Datblygu ymagweddau at werthuso dilyniant dysgwyr i mewn i'r ddarpariaeth, o fewn y ddarpariaeth, a thu hwnt

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyfleoedd Cymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr a'r gymuned leol
- Dydd Gwener Digidol, sef menter sy'n cyfeirio dysgwyr i ddarpariaeth, yn cynorthwyo dysgwyr presennol, yn hyrwyddo annibyniaeth, yn cynorthwyo tiwtoriaid, ac yn caniatáu dysgu parhaus a datblygu medrau

I'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, mewn sesiynau a thros gyfnod eu rhaglenni. Mewn sesiwn MBA, mae pob un o'r dysgwyr yn cynhyrchu'r iaith arwyddion gywir i adlewyrchu cyfathrebu geiriol. Mae dysgwyr mewn sesiwn TG sylfaenol yn datblygu medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gweithleoedd, gan gynnwys llywio Microsoft Word, creu dogfennau, a chwblhau tasgau fformatio syml. Mae'r medrau newydd hyn yn cynorthwyo un dysgwr i greu cylchlythyrau yn y gwaith, ac un arall i ddefnyddio gwefannau gwerthu a chwilio am swyddi ar-lein. Mewn sesiwn 'gitâr i wellhawyr', mae dysgwyr yn datblygu medrau sy'n eu galluogi i chwarae caneuon cyfan, ac mewn dosbarth crefft siwgr, mae dysgwyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau i greu cacennau wedi'u haddurno'n llawn.

Mae gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn dangos cynnydd da o ran gwybodaeth bwnc benodol, yn ogystal â medrau llythrennedd a rhifedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys dysgwr yn creu disgrifiad manwl o'r medrau sy'n ymwneud â pharatoi olewau aromatherapi, dysgwyr yn deall y cloc 24 awr, a dysgwyr ar gwrs popty araf yn paru pwysau a mesuriadau imperial a metrig yn gywir. Mae dysgwr mewn dosbarth MBA yn datblygu ei fedrau ysgrifennu o ran creadigrwydd ac arddull, yn ogystal â mecaneg llawysgrifen. Yn yr un modd, mae dysgwr ar gwrs gwasanaeth cwsmeriaid yn datblygu o ysgrifennu gan ddefnyddio priflythrennau yn unig i ysgrifennu gan ddefnyddio llythrennau bach, a phriflythrennau, lle bo'n briodol.

Ceir ychydig o enghreifftiau o ddysgwyr yn symud rhwng cyrsiau ar draws y bartneriaeth, fel dysgwyr yn symud o gwrs gofal cwsmeriaid cyn cyflogadwyedd i raglen celf ewinedd achrededig deuddydd sy'n cynnwys uned ar sefydlu'ch busnes eich hun. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth ddarlun clir o ddilyniant o ran niferoedd y dysgwyr sy'n symud ymlaen, neu lwybrau dilyniant addas.

Mewn dosbarthiadau sydd wedi'u cynllunio i helpu rhieni i gynorthwyo'u plant, mae dysgwyr yn cael mewnwelediad i gynorthwyo'u plant yn eu dysgu eu hunain. Mae rhieni mewn dosbarth therapi Lego yn trafod yn hyderus strategaethau a dulliau i helpu eu plant â gweithgareddau yn canolbwyntio ar rifedd, gan amlygu ystyriaethau penodol o ystyried bod gan lawer o'r plant anghenion dysgu ychwanegol. Mae un rhiant yn nodi sut bydd strategaethau newydd a ddysgwyd yn cynorthwyo'i phlentyn. Mae rhiant arall yn cydnabod y bydd y dasg y maent yn gweithio arni yn cynorthwyo'i mab i ddatblygu gwydnwch.

Ar raglenni medrau hanfodol a llythrennedd digidol, mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cadw medrau defnyddiol y maent yn eu cymhwyso mewn cyd-destunau newydd. Er enghraifft, mae dysgwyr ar raglen dysgu i deuluoedd yn crynhoi'r hyn a ddysgon nhw'r wythnos flaenorol, ac yn benodol, y wybodaeth a gawsant o fideo am y modd y gall defnyddio Lego gefnogi datblygiad rhifedd eu plant yn ystyrlon. Mae hyn yn sbarduno'r grŵp i drafod y syniadau'n fanylach, gydag unigolion yn ychwanegu eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau eu hunain ynghylch cynorthwyo plant â chyflwr y sbectrwm awtistig. Mae dysgwyr mewn sesiwn llythrennedd digidol yn cofio sut i ddyblygu, ailenwi a dileu ffeiliau, sy'n eu galluogi i ymgymryd yn effeithiol â thasg newydd. Mewn sesiwn Photoshop, mae dysgwyr yn datblygu medrau presennol ymhellach i ail-greu ffotograffau o'u teulu i gynnwys perthnasau sydd ar goll o'r ffotograff gwreiddiol.

Mae dysgwyr ar raglenni lles yn datblygu hyder a medrau. Er enghraifft, o ganlyniad i gwrs gitâr i wellhawyr, mae dysgwyr wedi cynnal cyngherddau, wedi cymryd rhan mewn nosweithiau meic agored, ac wedi ysgrifennu caneuon. Trwy ddefnyddio medrau wedi'u meithrin o'r newydd, mae dysgwyr ar gwrs uwchgylchu dillad yn ymdrin â phrosiectau newydd yn hyderus. Er enghraifft, mae un dysgwr wedi gwneud casys pensiliau i'w phlant, a llenni a chlustogau ar gyfer ei chartref.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu ac yn barod i gyfrannu mewn sesiynau. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd, eu tiwtor a staff cymorth eraill. Mewn dosbarth MBA, mae dysgwyr yn ymateb yn frwdfrydig pan fydd y tiwtor yn rhannu'r cynllun ar gyfer y sesiwn, gan ychwanegu eu hawgrymiadau eu hunain am dasgau a gweithgareddau eraill y maent eisiau eu cynnwys. Er enghraifft, mae dysgwr yn awgrymu y dylent greu cardiau 'teimladau' ar ôl defnyddio'r rhain yn y

gorffennol a'u gweld yn fuddiol. Mae cyfoedion yn ymateb yn gadarnhaol i'r awgrym hwn ac yn datblygu syniadau ymhellach trwy awgrymu gweithgareddau a allai arwain ymlaen o hyn, fel ysgrifennu estynedig.

Mae dysgwyr yn datblygu ac yn cynnal eu medrau Cymraeg yn dda. Mewn dosbarth rhifedd cyfrwng Cymraeg, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn gwella'u medrau llafaredd Cymraeg. Mewn sesiwn MBA, mae bron pob un o'r dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof, sy'n cynnwys geiriau Cymraeg fel cariad, adref, a cwtch, ac mae pob un o'r dysgwyr yn y grŵp yn ymateb yn gadarnhaol pan ofynnir cwestiynau iddynt, gan gyfrannu atebion yn falch yn Saesneg, yn Gymraeg, ac mewn iaith arwyddion. Mae dysgwyr mewn sesiwn ioga i rieni a babanod yn barod i ganu caneuon Cymraeg a chyfathrebu â'u babanod yn Gymraeg.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cydnabod bod eu cyrsiau'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Er enghraifft, mae dysgwr ar gwrs creu delweddau wedi dweud ei fod yn teimlo'n fwy hunanhyderus mewn lleoliadau cymdeithasol, gan reoli gorbryder cymdeithasol yn effeithiol gyda chymorth gan diwtoriaid a chyfoedion. Mae dysgwyr ar gwrs ymwybyddiaeth am anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yn datblygu strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli heriau yn gysylltiedig â chyflwr eu plant, gan gefnogi perthnasoedd cryfach a gwella lles cyffredinol y teulu. Trwy ryngweithio â chyfoedion, mae dysgwyr ar gwrs uwchgylchu dillad yn ei ddefnyddio fel cyfle i gymdeithasu ac ymgymryd â hobi sy'n cefnogi eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae'r amgylchedd cefnogol yn helpu goresgyn teimlo'n ynysig ac unigrwydd, sy'n galluogi dysgwyr i ffurfio cysylltiadau ystyrlon ac adennill ymdeimlad o berthyn. Ceir enghraifft o hyn gan ddysgwyr mewn grŵp celf sy'n ariannu ei hun, sy'n dweud bod y cwrs yn eu helpu i reoli heriau iechyd meddwl a'r cyfnod pontio i ymddeol.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ati i gymhwyso'u medrau newydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gyfrannu at eu cymunedau a'u twf personol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol amrywiol, yn cynnwys perfformiadau cerddorol mewn eglwysi lleol, a gwirfoddoli mewn ysbytai gan ddefnyddio iaith arwyddion a ddysgwyd mewn dosbarthiadau iaith arwyddion Prydain. Galluogodd medrau a gaffaelwyd trwy gyrsiau fel crefft siwgr i un dysgwr ddechrau busnes pobi cacennau llwyddiannus. Mae bron pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau digidol yn croesawu technoleg a'i manteision. Mae dysgwyr yn ymdrin â thechnoleg yn hyderus, ac fe gaiff hyn effeithiau cadarnhaol ar eu rhyngweithio cymdeithasol a'u lles cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweld bod caffael medrau newydd nid yn unig yn ymestyn eu galluoedd, ond hefyd yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad a balchder iddynt. Er enghraifft, mae rhieni a phlant ar gwrs therapi Lego yn derbyn tystysgrifau ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen, sy'n rhoi ymdeimlad o gyflawniad iddynt. Yn yr un modd, mae dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n astudio crefft siwgr ar y trywydd iawn i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus ac ennill ei gymhwyster ffurfiol cyntaf, sy'n rhoi ymdeimlad enfawr o falchder i'r dysgwr a'i deulu.

Dywed lleiafrif o ddysgwyr fod cyrsiau'n gwella'u hiechyd corfforol a'u gweithrediad gwybyddol. Er enghraifft, mae dysgwr ar gwrs 'gitâr i wellhawyr' yn dweud bod y cwrs

yn helpu lleddfu anesmwythder arthritig yn ei ddwylo, ond hefyd yn gwella'i gof a'i allu i gofio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol, sy'n amlwg trwy eu hymgysylltiad brwdfrydig a'u hysbryd cydweithredol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gwrs llechi cyfrifiadurol digidol yn dangos lefelau canolbwyntio cryf, gan eu galluogi i gwblhau tasgau cymhleth ac ymgysylltu'n effeithiol â chynnwys y cwrs. Mae dysgwyr ar gwrs gofal cwsmeriaid undydd yn ymgymryd yn dda â thasgau, yn gweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau, ac yn barod i wneud cyfraniadau yn y dosbarth â hyder, sy'n cefnogi eu dilyniant ar raglen achrededig ddeuddydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dyfalbarhad a medrau datrys problemau. Er enghraifft, mewn dosbarth uwchgylchu dillad, mae dysgwyr yn canfod problemau â pheiriannau gwnïo ac yn archwilio technegau newydd. Mewn dosbarth 'gitâr i wellhawyr', mae dysgwyr yn cynnal adolygiadau perfformiad ar ôl pob cân, gan ddatrys unrhyw faterion a gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac i'w gilydd. Bron ym mhob achos, mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn ffordd gydweithredol a chefnogol. Mae dysgwyr yn rhannu eu gwybodaeth a'u medrau i gefnogi ei gilydd a hwyluso cynnydd ar y cyd.

Nid oes gan leiafrif o ddysgwyr syniad clir ynglŷn â'r hyn yr hoffent symud ymlaen i'w wneud. Hoffai dysgwyr ar gwrs ymwybyddiaeth o ADHD gwblhau cyrsiau byrrach, ond nid ydynt yn ymwybodol o gyfleoedd dilyniant tymor hirach. Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i ddysgu ymhellach ond yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth am yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael iddynt o fewn y bartneriaeth.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod ddefnyddiol o ddarpariaeth, gyda chydbwysedd priodol o ran rhaglenni ymgysylltu a lles, ochr yn ochr â darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Ceir ystod addas o raglenni achrededig ac anachrededig. Wrth iddynt gynllunio darpariaeth, mae'r prif bartneriaid cyflenwi yn cydweithio'n effeithiol i osgoi dyblygu di-fudd o ran darpariaeth. Mae'r ddarpariaeth SSIE yn gyfyngedig, ac ni fu dadansoddiad systematig o'r galw amdani yn ardal y bartneriaeth.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi paratoi map dilyniant defnyddiol sy'n nodi llwybrau y gall dysgwyr eu dilyn i symud trwy'r ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth yn dechrau defnyddio hyn i fyfyrio ar ei darpariaeth a chynllunio sut mae'n hyrwyddo a thargedu ei chyrsiau. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth lwybrau dilyniant digon clir i fynd â dysgwyr o raglenni ymgysylltu byr i lefelau dysgu pellach ac uwch. Yn aml, nid yw dysgwyr yn ymwybodol o'r llwybrau a'r cyfleoedd posibl sydd ar gael iddynt, ac o ganlyniad, mae eu dyheadau'n gyfyngedig. Nid yw'r bartneriaeth fel arfer yn dadansoddi nac yn gwerthuso'r graddau y mae dysgwyr yn symud ymlaen i'w darpariaeth, o fewn ei darpariaeth, neu'r tu hwnt iddi.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i wybodaeth gan ei phartneriaid a'i hasiantaethau cyfeirio o fewn y sir i gynnig darpariaeth er mwyn ymateb i angen lleol. Er enghraifft, nododd tîm Gwaith a Sgiliau'r Cyngor, sy'n gweithio'n agos gyda swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion cynradd, fod angen i rieni a gofalwyr plant ag ADHD ddysgu mwy am sut i gynorthwyo'u plant. O ganlyniad,

mae'r bartneriaeth yn cyflwyno cwrs byr, achrededig yn yr ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r angen hwn.

Cynigir darpariaeth mewn ystod o leoliadau defnyddiol ledled y sir, gan gynnwys canolfannau dysgu ag ynddynt offer da fel Garth Olwg, llyfrgelloedd lleol, ysgolion, a lleoliadau cymunedol eraill. Fel arfer, gall dysgwyr gael mynediad at ddarpariaeth mewn lleoliad sy'n gyfleus iddyn nhw. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cyflwyno ychydig bach o ddarpariaeth ar-lein, sy'n golygu bod cyfleoedd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu mynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb yn hawdd.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi dechrau peilota cynnig ychydig bach o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn bartner cyflenwi. Mae'r ddarpariaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu rhifedd ar gyfer rhieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, rhaglenni lles fel ioga ar gyfer rhieni a babanod, a 'sesiynau galw i mewn digidol'. Mae'r bartneriaeth yn cynnig ychydig o'r rhaglenni hyn ar-lein, gan alluogi dysgwyr i fynychu o bell.

Mae'r bartneriaeth yn cefnogi nifer fach o glybiau sy'n ariannu eu hunain, trwy rentu mannau gweithdy, arddangos, neu berfformio. Mae'r clybiau hyn, fel y grwpiau ffeltio ac iwcalili, yn aml wedi esblygu o ddarpariaeth a oedd yn cael ei hariannu yn y gorffennol, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymdeithasu, datblygu, ac ymarfer eu medrau crefft neu gerddoriaeth. Mewn ychydig iawn o achosion, mae'r bartneriaeth yn cynnig darpariaeth a ariennir i ddysgwyr ar gyrsiau lle byddai clwb sy'n ariannu ei hun yn fwy priodol.

Ceir addysgu cryf ar draws y bartneriaeth. Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r heriau a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Maent yn cynllunio a chyflwyno sesiynau strwythuredig ac effeithiol i gymell dysgwyr, ac ennyn eu diddordeb. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu sesiynau.

Mae tiwtoriaid yn creu cymunedau dysgu ymddiriedus yn eu dosbarthiadau, hyd yn oed ar gyrsiau byr. Maent yn rheoli trafodaethau'n dda iawn, gan sicrhau eu bod yn ymgysylltu â phob un o'r dysgwyr yn y grŵp ac yn defnyddio'u profiadau i'w helpu i symud y dysgu ymlaen. Maent yn creu mannau diogel i ddysgwyr gyfrannu, ac o ganlyniad, mae sgyrsiau dysgu yn ddiffuant, yn adeiladol, ac yn aml yn cynnwys hiwmor. Er enghraifft, mewn cwrs byr ar ymwybyddiaeth o ADHD, roedd dysgwyr yn gallu rhannu profiadau yn ystod trafodaethau i gymell a chynorthwyo'i gilydd yn yr heriau sy'n eu hwynebu mewn bywyd bob dydd gyda'u plant.

Mae tiwtoriaid yn rheoli cyflymdra'r dysgu yn eu sesiynau yn dda. Maent yn addasu eu ffordd o gyflwyno yn fedrus, mewn ffordd gynlluniedig, ac mewn ffordd ymatebol, fel bod ystod lawn y dysgwyr yn eu dosbarth yn gwneud cynnydd yn y sesiwn honno ar gyfradd addas. Er enghraifft, mewn dosbarth llythrennedd digidol ar gyfer dysgwyr hŷn, mae'r tiwtor yn gweddu ei ffordd o gyflwyno yn dda i anghenion a nodau dysgu unigol dysgwyr o sbectrwm oedran eang. Mewn dosbarth cyfrwng Cymraeg lle mae lefelau hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg yn amrywio o ddechreuwyr i siaradwyr rhugl, mae'r tiwtor yn teilwra'r eirfa a ddefnyddir yn fedrus i weddu i alluoedd unigol pob dysgwr.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth defnyddiol i ddysgwyr sy'n eu helpu i wella. Mae hyn yn aml trwy sgwrs adeiladol â'r dysgwr, sy'n helpu'r dysgwr i gymryd perchnogaeth o'i ddysgu a gwneud cynnydd yn y wers. Mae tiwtoriaid hefyd yn manteisio ar wybodaeth ddefnyddiol am asesiadau, sy'n eu galluogi i addasu eu cynlluniau gwersi a'u ffordd o gyflwyno, o ganlyniad.

Er bod tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau dysgu tymor byr yn effeithiol, yn rhannol oherwydd diffyg eglurder am y llwybrau dilyniant sydd ar gael i ddysgwyr, nid ydynt bob amser yn arwain dysgwyr i anelu at nodau tymor hir sy'n ddigon heriol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae darparwyr unigol yn y bartneriaeth yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysebu eu cyrsiau. Mae hyn yn cynnwys mynychu digwyddiadau cymunedol a sesiynau rhagflas ynghyd â phamffledi a thaflenni printiedig sy'n cael eu danfon i leoliadau sy'n cynnig darpariaeth ar hyn o bryd. Mae ychydig o ddysgwyr o'r farn y dylid trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn lleoliadau cymunedol mwy amrywiol fel swyddfeydd post. Mae gan bob sefydliad unigol blatfformau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau sy'n rhoi gwybodaeth am gyrsiau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u cysylltu â'i gilydd ar hyn o bryd, ac nid oes lle canolog lle gall dysgwyr a darpar ddysgwyr gael gwybodaeth am raglenni na llwybrau dilyniant newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod i wybod am gyrsiau ar sail argymhelliad.

Mae'r bartneriaeth yn cynllunio a chyflwyno rhaglenni perthnasol i ddiwallu anghenion poblogaeth amrywiol Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer dysgwyr hŷn, cyrsiau rhan-amser ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a sesiynau galw i mewn i fagu hyder ar gyfer staff mewn gweithleoedd lleol. Mae'r bartneriaeth yn coladu a rhannu gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar gyfer dysgwyr, ac mae gan bob tiwtor restr o asiantaethau cyfeirio y gall dysgwyr fanteisio arnynt ac elwa arnynt, yn cynnwys Age Cymru, Mencap, Llinell Gymorth C.A.L.L. a Scope. Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cefnogi eu hanghenion lles fel y maent yn codi trwy eu rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth ac mewn amgylcheddau dysgu eraill. Mae tiwtoriaid yn creu cyfleoedd yn effeithiol i ddysgwyr gynorthwyo'i gilydd â phryderon lles. Er enghraifft, mae un dysgwr mewn sesiwn MBA yn rhannu pryder personol yn ystod y sesiwn. Mae hyn yn arwain at drafodaeth ehangach, a chyfoedion yn dweud eu bod yn cydnabod y pryderon hyn, ac yn awgrymu ffyrdd synhwyrol y gallant fynd i'r afael â'r materion hyn fel rhan o weithgaredd dosbarth. Mae uwch swyddogion, cydlynwyr cwricwlwm a thiwtoriaid yn mynd ar drywydd diffyg presenoldeb a materion lles trwy wneud galwadau bugeiliol i helpu cynnal diddordeb dysgwyr.

Ceir cymorth cryf ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynnig y bartneriaeth yn cynnwys sgrinio cyn cyrsiau i nodi anghenion dysgwyr cyn iddynt ddechrau cwrs, sy'n fuddiol yn yr achosion lle mae'n digwydd. Er enghraifft, gellir trefnu bod copïwr ar gael yn barod ar gyfer dysgwr os caiff angen ei nodi. Pan fo'n briodol, mae tiwtoriaid yn cynnal asesiadau unigol o anghenion dysgu ychwanegol cyn i gyrsiau ddechrau, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio dysgwyr at y ddarpariaeth fwyaf addas. Mae un darparwr yn y bartneriaeth yn cyflwyno cyfnod ymsefydlu 4 wythnos ar gyfer rhai rhaglenni, y mae tiwtoriaid yn ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion cymorth a rhoi cymorth ar waith. Mae'r bartneriaeth yn rhannu adnoddau cymorth, lle bo modd. Er enghraifft, pan mae angen i un sefydliad

ddarparu gofal plant i alluogi dysgwyr i gymryd rhan ar gwrs, mae'n gweithio gyda sefydliad partner ehangach i roi hyn ar waith.

Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo lles, ffyrdd iach o fyw, a magu hyder, ac mae tiwtoriaid yn cynllunio cynnwys cyrsiau i gynorthwyo dysgwyr â hyn. Mewn sesiwn rifedd yn Gymraeg, mae un dysgwr yn ei chael yn haws dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd wedi cynyddu ei les a'i allu gwybyddol. Mae bellach yn dechrau swydd newydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae dysgwyr ar gwrs llythrennedd digidol yn gwerthfawrogi 'Dydd Gwener Digidol', sef menter sy'n cynorthwyo dysgwyr â datrys problemau â'u dyfeisiau digidol. Er enghraifft, mae un dysgwr wedi cael cymorth â newid gosodiadau ar ei lechen gyfrifiadurol sy'n ei alluogi i gwblhau tasgau'n haws a pharhau i ddysgu. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael ym mhob llyfrgell ar draws y bartneriaeth, yn cynnig apwyntiadau i ddysgwyr y mae angen cymorth digidol ychwanegol arnynt. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth atgyfeirio ar gyfer darpar ddysgwyr sy'n archwilio cyfleoedd dysgu i oedolion.

Rhoddir pwyslais ar lais y dysgwr ar draws y bartneriaeth, ac mae tiwtoriaid yn ymgorffori cyfleoedd yn effeithiol i ddysgwyr fwydo i mewn i gynllunio dosbarth. Mewn dosbarth medrau digidol, mae'r tiwtor yn datblygu cyrsiau dilyniant ar gyfer dysgwyr yn seiliedig ar fewnbwn dysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu eu grwpiau sy'n ariannu eu hunain, dan arweiniad dysgwyr, ac mae dysgwyr mewn un grŵp celf yn trafod yr effaith gadarnhaol a gaiff y sesiwn ar eu lles, yn enwedig o ran lleddfu unigrwydd a magu hyder. Ceir enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth yn gadarnhaol o ran llais y dysgwr, fel yr arolwg dysgwyr ar draws y bartneriaeth, sy'n bwydo i mewn i gynllunio strategol.

Mae partneriaid yn gweithio i nodi dysgwyr bregus neu'r rhai sydd mewn perygl o radicaleiddio mewn ffyrdd sy'n briodol i gyd-destunau eu sefydliadau eu hunain. Trwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi, mae darparwyr yn sicrhau bod tiwtoriaid wedi'u harfogi i adnabod arwyddion eithafiaeth a radicaleiddio, ac yn gwybod sut i ymateb yn briodol i bryderon neu risgiau posibl, os oes angen. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ad-drefnwyd y bartneriaeth yn briodol yn 2023, sydd wedi adfywio'r gwasanaeth ar ôl cyfnod Covid. Achubodd rheolwyr ar y cyfle i edrych ar ddarpariaeth hanesyddol ac ailystyried blaenoriaethau, a phartneriaid cyflenwi. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys grŵp strategol a gweithredol a chyfres o is-grwpiau a ffurfiwyd yn ddiweddar i ddelio â materion penodol fel datblygu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno rôl swyddog systemau a chyfathrebu i gefnogi ei gwaith, ond mae'n rhy gynnar i fesur yr effaith ar ddysgwyr. Mae pwyllgor craffu'r Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd am ddysgu oedolion yn y gymuned, ac fe gaiff y bartneriaeth gymorth cryf gan gynghorwyr lleol.

Mae'r cynllun strategol newydd wedi'i seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Ceir ffocws cryf ar gefnogi cyflogadwyedd, dysgu gydol oes, a lles. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol a heriol, gan gynnwys codi canran medrau a chymwysterau trigolion, yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer

Cymru. Mae'r bartneriaeth yn ystyried ac yn defnyddio dyraniadau cyllid yn dda i gyflawni blaenoriaethau, ac yn rheoli ei chyllideb yn briodol.

Mae partneriaid gweithredol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae cynnwys tîm Gwaith a Sgiliau'r Cyngor yng ngwaith y bartneriaeth yn cefnogi anghenion cyflogadwyedd y boblogaeth leol. Mae'r berthynas gynhyrchiol â thîm Multiply yn ffordd ddychmygus ac effeithiol o integreiddio darpariaeth a rhannu adnoddau.

Mae gan y bartneriaeth berthnasoedd cryf â llawer o ysgolion cynradd ledled y sir. Mae'r ysgolion hyn yn groesawgar i ddysgwyr cymunedol ac nid dim ond y rhai sydd â phlant yn yr ysgol. Mae'r bartneriaeth wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol â'r bartneriaeth sgiliau ranbarthol hefyd, ac mae'n dechrau rhannu gwybodaeth ac arbenigedd â dau awdurdod lleol cyfagos. Megis dechrau cael eu sefydlu y mae'r perthnasoedd hyn, ond mae staff yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i helpu gwella medrau a dyheadau yn y rhanbarth.

Mae gan y bartneriaeth fecanweithiau addas trylwyr ar waith, gan gynnwys proses hunanasesu fanwl sy'n cofnodi gwybodaeth a data allweddol am y bartneriaeth. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn ddyheadol ac yn cynnwys targedau'n ymwneud â meysydd gwaith newydd fel darparu amgylcheddau diogel i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg a rhagnodi cymdeithasol.

Eir i'r afael â'r elfen rhagnodi cymdeithasol yn effeithiol. Mae llawer o ddosbarthiadau a grwpiau sefydledig yn diwallu anghenion iechyd meddwl a lles dinasyddion, gan gynnwys dysgwyr hŷn. Mae'r bartneriaeth yn dechrau gweithio gyda phartneriaid ehangach, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd lleol, i gynyddu dealltwriaeth o effaith gadarnhaol dysgu oedolion ar unigolion a chymunedau, yn enwedig mewn sir sydd â chyfran gynyddol o ddinasyddion hŷn.

Mae'r bartneriaeth wedi paratoi papur defnyddiol a manwl iawn ar lwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr, yn rhestru darparwyr allweddol, yn cynnwys cyrsiau mewn prifysgolion a cholegau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys strategaeth ar gyfer gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'u camau nesaf na'r llwybrau dilyniant y gallant eu dilyn. Nid yw rôl y coleg yn y bartneriaeth yn ddigon cryf i greu llwybr clir o gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned i ddarpariaeth coleg.

Mae staff ar draws y darparwyr yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn nodi meysydd i'w gwella ac anghenion hyfforddi tiwtoriaid. Mae darparwyr unigol yn cynnal arsylwadau addysgu, ond nid oes arsylwadau ar y cyd ar draws staff y bartneriaeth. Mae lleiafrif o arsylwadau'n cynnwys anghenion dysgu proffesiynol a nodwyd, ond nid oes cofnod o gamau gweithredu pellach i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Mae tiwtoriaid yn cydweithio i ddatblygu deunyddiau ar gyfer cyflwyno cyrsiau o fewn eu maes pwnc a'u sefydliad, ond nid ar draws y bartneriaeth. Mae ychydig o diwtoriaid yn rhannu arfer dda ac arbenigedd. Er enghraifft, mae tiwtor TG yn cynorthwyo tiwtoriaid eraill i ddatblygu eu medrau TG. Mae'r cwrs ymwybyddiaeth o fedrau hanfodol a gyflwynir gan diwtoriaid medrau sylfaenol yr awdurdod lleol i gydweithwyr, tîm Gwaith a Sgiliau'r Cyngor a Chyngor ar Bopeth yn enghraifft dda o

ddysgu proffesiynol ar y cyd, a sut mae hyn wedi arwain at arfer well gan staff, ac effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/06/2024